WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adroddiad er Budd y Cyhoedd – methiannau o ran trefniadau rheoli ariannol a llywodraethu – **Cyngor Cymuned Llanbrynmair**

Blwyddyn archwilio: 2015-16 a 2016-17

Dyddiad cyhoeddi: Rhagfyr 2018

Cyfeirnod y ddogfen: 779A2018-19

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Cymuned Llanbrynmair fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â'r swyddogaethau statudol. Fe'i paratowyd er mwyn galluogi Archwilydd Cyffredinol Cymru i ystyried a ddylid cyhoeddi adroddiad er budd y cyhoedd.

I'r graddau eithaf a ganiateir o dan y gyfraith, nid yw'r Archwilydd Cyffredinol, Swyddfa Archwilio Cymru na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn nac yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb mewn perthynas ag unrhyw ddefnydd arall o'r adroddiad hwn yn llawn neu'n rhannol, nac unrhyw wybodaeth a geir ynddo, gan unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, na chan unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Deryck Evans a gyflawnodd y gwaith, o dan gyfarwyddyd Anthony Barrett.

# Cynnwys

Paratowyd y ddogfen hon i'm galluogi fel yr Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol i ystyried, ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, p'un a ddylwn, o dan drefniadau dirprwyedig, gyhoeddi adroddiad er budd y cyhoedd o dan adran 22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Rwyf yn ystyried p'un a ddylwn gyhoeddi adroddiad i dynnu sylw'r cyhoedd at fethiannau o ran trefniadau llywodraethu ac achosion o reoli ariannol a rheolaeth fewnol annigonol yng Nghyngor Cymuned Llanbrynmair.

Ni all yr Archwilydd Cyffredinol roi barn ar Ffurflenni Blynyddol y Cyngor ar gyfer blynyddoedd ariannol 2015-16 na 2016-17.


Cyflwyniad 4

Nid yw'r Cyngor wedi cadw cofnodion cyfrifyddu cywir na rhoi digon o dystiolaeth i'm galluogi i gynnal yr archwiliad statudol, felly, ni allaf roi barn ar b'un a yw'r cyfrifon blynyddol yn cyflwyno derbyniadau a thaliadau'r Cyngor ar gyfer y blynyddoedd archwilio yn briodol ai peidio 5

Mae trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn anghyson â'r honiadau cadarnhaol y mae wedi'u gwneud yn ei Ffurflen Flynyddol 6

- Ni chyflwynodd y Cyngor ei gyfrifon blynyddol ar gyfer 2015-16 na 2016-17 i mi eu harchwilio yn unol â'r amserlen statudol 8
- Nid oes digon o dystiolaeth i gadarnhau p'un a oes trefniadau priodol wedi'u gwneud ar gyfer arfer hawliau cyhoeddus ai peidio 9
- Ni pharatôdd y Cyngor gyllideb ar gyfer 2015-16 na 2016-17 ac ni chymeradwyodd y praesept a godwyd ar dalwyr y dreth gyngor ar gyfer y blynyddoedd ariannol hyn 9
- Mae'r Cyngor wedi methu â chynnal trefniadau priodol i weinyddu'r gyflogres a TWE, gan gynnwys talu treth incwm y Clerc i CThEM 10
- Mae'r Cyngor wedi methu â chynnal system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol 11
- Mae'r Cyngor wedi methu â chadw cofnodion o'i gyfarfodydd ar y ffurf a ragnodir gan y gyfraith 11
- Mae'r Cyngor wedi methu â chydymffurfio â'i ddyletswyddau cyfreithiol i fabwysiadu Cod Ymddygiad i'r aelodau a chynnal cofrestr o fuddiannau'r aelodau 11
- Nid yw'r Cyngor wedi datblygu gwefan er mwyn ei alluogi i gyhoeddi hysbysiadau a gwybodaeth arall yn electronig 12

Argymhellion 12

Y camau nesaf 14

# Cyflwyniad

1 Cyhoeddir yr adroddiad hwn er budd y cyhoedd o dan Adran 22 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (y Ddeddf). Rwyf wedi cyhoeddi'r adroddiad hwn i dynnu sylw'r cyhoedd at annigonolrwydd mewn rheolaeth lywodraethol a rheolaeth ariannol yng Nghyngor Cymuned Llanbrynmair (y Cyngor). Credaf ei bod yn bwysig bod gan y cyhoedd ymwybyddiaeth lawn a phriodol o'r digwyddiadau sy'n ymwneud â'r Cyngor.

2 Rwyf hefyd o'r farn ei bod yn briodol rhoi cyfle i'r Cyngor ddangos y camau pwysig a gymerwyd eisoes i wella trefniadau ac i sicrhau bod y risg o fethiannau llywodraethu o'r fath i digwydd eto yn cael ei leihau i'r lleiafswm. At hynny, mae gwersi i'w dysgu nid yn unig gan y Cyngor, ond gan bob cyngor cymuned yng Nghymru.

3 Mae'r Cyngor yn gwasanaethu cymuned wledig fach wedi'i leoli yng ngogledd orllewin Powys. Yn nodweddiadol mae'n gwario tua £ 10,000 yn flynyddol ac yn ariannu hyn yn bennaf o'i praesept. Codir y praesept fel rhan o dreth y cyngor ar gyfer y gymuned. Mae'n cyflogi un aelod rhan-amser o staff i ymgymryd â rolau Clerc a Swyddog Ariannol Cyfrifol (y Clerc).

4 Credaf ei bod yn bwysig nodi, er mwyn rhoi cyd-destun, fod y Clerc, Mr Rab Jones, wedi wynebu sawl problem iechyd yn ystod y blynyddoedd ariannol dan sylw yn y ddogfen hon a bod ganddo hefyd dair swydd ran-amser arall fel Clerc ar yr un pryd.

5 Mae fy ngwaith archwilio ar gynghorau tref a chymuned yn canolbwyntio ar ffurflen flynyddol a gwblheir gan y cynghorau ac a gyflwynir i archwilwyr sy'n gweithio ar fy rhan. Mae'r ffurflen flynyddol yn cynnwys y datganiadau cyfrifyddu blynyddol y mae'n ofynnol i'r cyngor eu paratoi o dan y gyfraith a datganiad llywodraethu blynyddol sy'n nodi sut mae'r cyngor wedi rheoli ei faterion ariannol.

6 Oherwydd oedi cyn cael y ffurflenni blynyddol ar gyfer 2015-16 a 2016-17, gwnaeth yr archwilwyr oedd yn gweithio ar fy rhan gyfeirio Cyngor Cymuned Llanbrynmair ataf. Ymestynnais gwmpas fy ngwaith oherwydd y risg uwch sy'n gysylltiedig â chwblhau a chyflwyno cyfrifon yn hwyr. Nododd fy ngwaith archwilio faterion sylweddol mewn perthynas â'r datganiadau cyfrifyddu a'r datganiad llywodraethu blynyddol, sef:

- nid yw'r Cyngor wedi cadw cofnodion cyfrifyddu cywir na rhoi digon o dystiolaeth i'm galluogi i gynnal yr archwiliad statudol. Felly ni allaf roi barn ar b'un a yw'r datganiad cyfrifon blynyddol yn cyflwyno derbyniadau a thaliadau'r Cyngor ar gyfer y blynyddoedd archwilio yn briodol ai peidio;
- mae trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn anghyson â'r honiadau cadarnhaol y mae wedi'u gwneud yn ei Ffurflen Flynyddol.

7 O ganlyniad i'r materion a nodwyd yn yr archwiliad, ni allaf ddod i gasgliad ynghylch p'un a yw'r datganiadau cyfrifyddu yn cyflwyno trafodion ariannol y Cyngor yn briodol ai peidio. At hynny, mae'r diffygion a nodwyd gennyf yn golygu,

yn fy marn i, nad oes gan y Cyngor drefniadau digonol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o'i adnoddau. Felly, byddaf yn rhoi barn archwilio amodol ar gyfer cyfrifon 2015-16 a 2016-17.

8 Mae fy nghanfyddiadau archwilio yn dangos annigonolrwydd parhaol mewn llywodraethu a rheolaeth ariannol yn y Cyngor ac fe'u hystyrir yn fanylach yng ngweddill y ddogfen hon.

## Nid yw'r Cyngor wedi cadw cofnodion cyfrifyddu cywir na rhoi digon o dystiolaeth i'm galluogi i gynnal yr archwiliad statudol, felly, ni allaf roi barn ar b'un a yw'r cyfrifon blynyddol yn cyflwyno derbyniadau a thaliadau'r Cyngor ar gyfer y blynyddoedd archwilio yn briodol ai peidio

9 Mae'n ofynnol i gynghorau cymuned gadw cyfrifon cyfrifyddu priodol sy'n ddigonol i ddangos trafodion ariannol y cyngor a galluogi'r Swyddog Ariannol Cyfrifol i baratoi'r cyfryw ddatganiadau cyfrifyddu ag sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru). Mae'n rhaid i'r Swyddog Ariannol Cyfrifol sicrhau y caiff y cofnodion cyfrifyddu eu diweddaru'n gyson a'u cadw yn unol ag arferion priodol.

10 Mae fy archwiliad wedi nodi sawl gwendid a hepgoriad sylweddol yng nghofnodion Cyngor Cymuned Llanbrynmair.

11 Mae arferion priodol fel y'u nodir gan gyhoeddiad Un Llais Cymru/Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol, **'Governance and accountability for local councils in Wales'**, yn nodi y dylai fod gan bob cyngor lyfr arian neu fath arall o gyfriflyfr ariannol lle y cofnodir trafodion ariannol y cyngor. Dylai'r eitemau a gofnodir yn y llyfr arian neu'r cyfriflyfr gael eu hategu gan ddogfennaeth wreiddiol megis anfonebau. Dylai'r cofnod hwn gael ei ddefnyddio wedyn yn sail i'r cyfrifon blynyddol a dylai gael ei gysoni â chyfrif(on) banc y cyngor er mwyn sicrhau ei fod yn gyflawn ac yn gywir.

12 Fodd bynnag, nid oes gan y Cyngor lyfr arian na chyfriflyfr ariannol. Yn lle hynny, mae'r Clerc wedi darparu rhestr o drafodion sydd wedi'i llunio gan ddefnyddio'r cyfriflenni banc.

13 Nid wyf wedi gallu cadarnhau cyflawnder na chywirdeb y rhestr o drafodion a gyflwynwyd gan y Clerc am y rhesymau canlynol:

- mae anghysondebau heb eu hesbonio rhwng y ffurflen flynyddol a'r balans a gofnodir ar y gyfriflen banc ddyddiedig 31 Mawrth 2015;
- nid ymddengys fod rhai taliadau sydd wedi'u cymeradwyo yng nghofnodion y Cyngor wedi'u gwneud;

- nid ymddengys fod rhai taliadau a wnaed wedi'u cymeradwyo gan y Cyngor; ac
- mae'r anfonebau ategol a'r dogfennau gwreiddiol eraill i ategu taliadau a wnaed yn anghyflawn.

14 Ymatebodd y Clerc i gais i ddarparu'r wybodaeth oedd ar goll gan esbonio, ar gyfer rhai taliadau, nad oedd unrhyw ddogfennaeth ategol neu ei bod wedi'i cholli ac, felly, na allai ddarparu'r wybodaeth oedd ar goll. O ganlyniad, ni allaf ddod i gasgliad ynghylch p'un a yw'r datganiadau cyfrifyddu yn cyflwyno trafodion ariannol y Cyngor yn briodol ai peidio.

## Mae trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn anghyson â'r honiadau cadarnhaol y mae wedi'u gwneud yn ei Ffurflen Flynyddol

15 Yn ogystal â chyflwyno'r cyfrifon ar gyfer blwyddyn benodol, mae'r Ffurflen Flynyddol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud datganiad ffurfiol ynghylch y trefniadau llywodraethu a rheoli ariannol y mae wedi'u rhoi ar waith. Cyfeirir at hyn fel y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

16 Er y gall union eiriad y Datganiad Llywodraethu Blynyddol amrywio o'r naill flwyddyn i'r llall, mae'n ymdrin yn fras â'r eitemau ('honiadau' neu ddatganiadau am drefniadau llywodraethu'r Cyngor) a nodir yn Arddangosyn 1. Mae Arddangosyn 1 hefyd yn dangos ymateb y Cyngor i'r materion hynny a'm hasesiad archwilio.

Arddangosyn 1: Datganiad Llywodraethu Blynyddol

| Honiad | Ymateb gan y Cyngor | Asesiad archwilio |
|---|---|---|
| **2015-16 a 2016-17** | | |
| Lluniwyd a chymeradwywyd y datganiadau cyfrifyddu yn briodol. | Ie | Na |
| Cynhaliwyd ac adolygwyd effeithiolrwydd system rheolaeth fewnol ddigonol, gan gynnwys mesurau a gynlluniwyd i atal a chanfod twyll a llygredd. | Ie | Na |
| Cymerwyd camau er mwyn sicrhau nad oes unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau, rheoliadau na chodau ymarfer. | Ie | Na |
| Cynigiwyd cyfleoedd priodol i arfer hawliau etholwyr mewn perthynas â'r cyfrifon. | Ie | Na |
| Cynhaliwyd asesiad o'r risgiau sy'n wynebu'r Cyngor. | Na | Na |
| Cynhaliwyd system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol. | Na | Na |

| Honiad | Ymateb gan y Cyngor | Asesiad archwilio |
|---|---|---|
| **2015-16 a 2016-17** | | |
| Ystyriwyd effaith ariannol unrhyw ymgyfreitha, rhwymedigaethau neu ymrwymiadau, digwyddiadau neu drafodion. | Ie | Methwyd â dod i gasgliad |
| Cymerwyd camau priodol mewn perthynas ag adroddiadau archwilio mewnol ac allanol. | Dim ymateb | Na |
| **2015-16 yn unig** | | |
| Cyfrifwyd a chymeradwywyd y gofyniad cyllidebol fel sy'n ofynnol o dan y gyfraith. | Ie | Na |
| Cafwyd adroddiadau ariannol manwl ar dderbyniadau a thaliadau'r Cyngor a'i sefyllfa ariannol. | Ie | Na |
| Sicrhawyd bod archwilydd mewnol y Cyngor yn annibynnol ar broses gwneud penderfyniadau'r Cyngor. | Ie | Na |
| **2016-17 yn unig** | | |
| Cofrestrodd fel cyflogwr â Chyllid a Thollau EM. | Na | Na |
| Cadwyd cofnodion cyflogres priodol. | Na | Na |
| Mabwysiadwyd Cod Ymddygiad i'r aelodau. | Ie | Na |

17 Ar gyfer y ddwy flwyddyn archwilio a ystyriwyd yn yr adroddiad hwn, sef 2015-16 a 2016-17, mae'r Cyngor wedi cwblhau'r ffurflenni fel uchod ar y sail ei fod yn cydymffurfio â'r disgwyliadau a nodir mewn deddfwriaeth a chanllawiau cyhoeddedig. Nid yw'r Cyngor wedi amodi ei ymatebion nac wedi rhoi esboniadau ynghylch meysydd lle mae naill ai'n ddiffygiol neu'n gweithio i sicrhau gwelliannau.

18 Felly, yn fy marn i, mae'r datgeliadau llywodraethu a wnaed gan y Cyngor yn anghyson â'r sefyllfa a adlewyrchir yn ei ddogfennaeth.

19 Mae'n amlwg i mi nad yw'r Cyngor wedi cymryd camau digonol i fodloni ei hun bod ei drefniadau llywodraethu wedi'u datgelu'n effeithiol ac yn deg. Nid yw aelodau'r Cyngor wedi cydnabod materion sy'n ymwneud â digonolrwydd ei drefniadau llywodraethu na gweithredu arnynt yn ddigonol.

20 Mae adran nesaf yr adroddiad hwn yn nodi sawl diffyg a gwendid yn nhrefniadau'r Cyngor sydd wedi bod yn amlwg iawn i mi yn ystod yr archwiliad.

## Ni chyflwynodd y Cyngor ei gyfrifon blynyddol ar gyfer 2015-16 na 2016-17 i mi eu harchwilio yn unol â'r amserlen statudol

21 O dan Adran 13 o'r Ddeddf rhaid i'r Cyngor wneud y canlynol:

- paratoi ei gyfrifon bob blwyddyn hyd at 31 Mawrth neu'r cyfryw ddyddiad arall ag y gall Gweinidogion Cymru ei gyfarwyddo yn gyffredinol neu mewn unrhyw achos arbennig; a
- sicrhau y caiff ei gyfrifon eu harchwilio yn unol â'r Ddeddf gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

22 Caiff y cyfrifon eu paratoi ar ffurf ffurflen flynyddol syml a anfonir i'r Cyngor bob blwyddyn. Mae Rheoliad 15 o'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gymeradwyo'r cyfrifon cyn 30 Mehefin ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol. Wedyn, mae'n rhaid i'r Cyngor anfon y cyfrifon at yr Archwilydd Cyffredinol a chyhoeddi cyfrifon archwiliedig erbyn 30 Medi.

23 Fel y dengys Arddangosyn 2, nid yw'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r terfynau amser statudol ar gyfer cyflwyno ei gyfrifon i'w harchwilio ar gyfer blynyddoedd ariannol 2015-16 a 2016-17.

Arddangosyn 2: dyddiadau cwblhau'r cyfrifon

| Blwyddyn ariannol | Dyddiad y cymeradwywyd y cyfrifon gan y Cyngor | Dyddiad y'u cyflwynwyd i'w harchwilio |
|---|---|---|
| 2015-16 | 30 Awst 2017 | 13 Hydref 2017 |
| 2016-17 | 30 Awst 2017 | 13 Hydref 2017 |

24 Ar sail fy adolygiad o gofnodion y Cyngor, ymddengys i mi na chyflwynodd y Clerc gyfrif cyflawn na mantoledig o'i berfformiad i'r Cyngor er mwyn cydymffurfio â'r terfynau amser hyn. Ysgrifennais at y Clerc ym mis Awst 2017 a chyfarfûm â'r Clerc a'r cadeirydd ar 13 Hydref 2017.

25 Er bod anallu'r Clerc i gyflwyno cyfrifon ar amser yn ffactor arwyddocaol o ran methiant y Cyngor i gydymffurfio â'i gyfrifoldebau statudol, rhaid i'r Cyngor ei hun ysgwyddo rhywfaint o'r cyfrifoldeb am y methiant hwn. Nid wyf wedi canfod unrhyw dystiolaeth bod y Cyngor wedi cymryd unrhyw gamau mewn perthynas â'r cyfrifon hwyr.

## Nid oes digon o dystiolaeth i gadarnhau p'un a oes trefniadau priodol wedi'u gwneud i arfer hawliau cyhoeddus ai peidio

26 Mae adran 30(2) a 31(1) o'r Ddeddf yn darparu ar gyfer hawliau cyhoeddus h.y. pobl â buddiant i edrych dros y cyfrifon sydd i'w harchwilio, ac i etholwyr holi'r archwilydd am y cyfrifon a chyflwyno gwrthwynebiadau i'r archwilydd ynglŷn ag unrhyw fater y mae gan yr archwilydd bŵer i wneud y canlynol mewn perthynas ag ef:

- gwneud cais am ddatganiad bod eitem yn y cyfrifon yn anghyfreithlon; ac
- unrhyw fater arall y mae gan yr archwilydd y pŵer i lunio adroddiad o dan adran 22 o'r Ddeddf mewn perthynas ag ef.

27 Mae Rheoliad 17 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Corff hysbysu'r cyhoedd, drwy hysbyseb, am y cyfnod pryd y bydd y cyfrifon a'r dogfennau eraill ar gael i'w harchwilio.

28 Nid wyf wedi cael digon o dystiolaeth i ddangos bod y Cyngor wedi cydymffurfio â gofynion y Ddeddf. Felly, rwyf wedi pennu 11 Ionawr 2019 fel y dyddiad y gall etholwyr lleol ddechrau arfer eu hawliau o dan y Ddeddf mewn perthynas â chyfrifon 2015-16 a 2016-17.

## Ni pharatôdd y Cyngor gyllideb ar gyfer 2015-16 na 2016-17 ac ni chymeradwyodd y praesept a godwyd ar dalwyr y dreth gyngor ar gyfer y blynyddoedd ariannol hyn

29 Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau gyfrifo'r gyllideb flynyddol a'i chymeradwyo. Mae Adran 41 o'r Ddeddf hon yn caniatáu i gynghorau gyhoeddi praesept, y penderfynir ar y sail ar ei gyfer yn unol ag Adran 50, drwy gyfrifo'r gofyniad cyllidebol.

30 Er gwaethaf y gofyniad statudol hwn, mae'r gyllideb yn bwysig am y rhesymau canlynol:

- mae'n arwain at bennu'r praesept ar gyfer y flwyddyn;
- mae'n rhoi awdurdod i'r Cyngor wario'r arian yn unol â'r cynlluniau gwariant cymeradwy a'r rheoliadau ariannol; ac
- mae'n rhoi sylfaen ar gyfer monitro cynnydd yn ystod y flwyddyn drwy gymharu ffigurau gwirioneddol â gwariant arfaethedig.

31 Mae'r gyllideb yn elfen hollbwysig o drefniadau rheoli ariannol effeithiol ac atebolrwydd ac, yn y pen draw, mae'n lleihau faint o amser y mae cynghorau yn ei dreulio yn rheoli eu hadnoddau ariannol. Yn niffyg trefniadau digonol ar gyfer pennu a monitro cyllidebau, ni all cynghorau reoli arian cyhoeddus yn effeithiol na dangos eu bod yn cydymffurfio â gofynion statudol.

32 Mewn ymateb ysgrifenedig i'm canfyddiadau cychwynnol, dywedodd y Cyngor ei fod yn paratoi cyllideb cyn gosod ei praesept ond yn nodi y bydd angen iddo adolygu ei weithdrefnau i sicrhau cydymffurfiad â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol

1992 a sut mae'r broses yn cael ei gofnodi yn y cofnodion. Yn ystod fy archwiliad, doeddwn i ddim yn gallu canfod tystiolaeth bod y Cyngor wedi paratoi cyllideb ar gyfer y flwyddyn 2015-16 neu flynyddoedd ariannol 2016-17. Nid oes unrhyw dystiolaeth o fonitro ariannol priodol gan y Cyngor.

33 Nododd fy archwiliad o gofnodion y Cyngor, er bod cofnodion y Cyngor yn cofnodi bod y praesept blynyddol wedi'i dderbyn, nad oes unrhyw gofnod bod y Cyngor wedi cymeradwyo cyflwyno praesept i Gyngor Sir Powys.

## Mae'r Cyngor wedi methu â chynnal trefniadau priodol i weinyddu'r gyflogres a TWE, gan gynnwys talu treth incwm y Clerc i CThEM

34 Mae'r rhan fwyaf o Gynghorau Cymuned, megis Cyngor Cymuned Llanbrynmair, yn cyflogi un swyddog i ymgymryd â rolau'r Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol, sy'n rolau ar wahân yn gyfreithiol. Mae'r rhan fwyaf o'r swyddogion hyn yn gweithio'n rhan-amser, gyda'u horiau yn amrywio o un neu ddau ddiwrnod yr wythnos, i ychydig o oriau y chwarter mewn cysylltiad â chyfarfodydd y Cyngor. Mae'r Clerc, fel un o swyddogion priodol y Cyngor, yn un o gyflogeion y Cyngor. Dylai'r Cyngor roi contract sy'n nodi'r telerau ac amodau cyflogaeth i unrhyw gyflogeion. Dylai contract cyflogaeth ysgrifenedig roi eglurder ynglŷn â rôl a statws y Clerc a'r trefniadau cydnabyddiaeth ar gyfer y swydd. Dylai'r Cyngor fod wedi sicrhau ei fod yn deall ei gyfrifoldebau wrth gyflogi'r Clerc.

35 Nid oes unrhyw gontract cyflogaeth ysgrifenedig rhwng y Cyngor a'r Clerc sy'n nodi'r telerau ac amodau y cyflogir y Clerc oddi tanynt.

36 Fel cyflogwr, mae'n rhaid i'r Cyngor ddidynnu Treth Incwm a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogeion o gyflog cyflogeion ac anfon y symiau a ddidynnir i Gyllid a Thollau EM (CThEM) bob mis neu chwarter ynghyd â Chyfraniadau Yswiriant Gwladol y cyflogwr. Gelwir y system hon yn Talu Wrth Ennill (TWE). Mae'n rhaid i ddidyniadau TWE gael eu talu i CThEM. Mae'n rhaid i bob cyflogwr hefyd gadw cofnodion cyflogres.

37 Nododd fy archwiliad fod y Clerc wedi cael taliadau chwarterol, rheolaidd a ddisgrifir fel 'costau'. Cadarnhaodd y Clerc a chadeirydd y Cyngor nad oes unrhyw gontract cyflogaeth ysgrifenedig. Felly, er bod penderfyniad y Cyngor i gadarnhau'r taliadau wedi'i gofnodi yn y cofnodion, ni allaf gadarnhau p'un a yw'r Clerc wedi'i dalu'n briodol ai peidio. Nid yw'n glir a wnaed didyniadau TWE gan na wnaed unrhyw daliadau i CThEM.

38 Yn seiliedig ar y dystiolaeth rwyf wedi'i gweld mewn perthynas â'r gyflogres a TWE yn y Cyngor, rwyf wedi dod i'r casgliad nad oes cofnodion cyflogres priodol wedi cael eu cadw fel sy'n ofynnol ac nad oes didyniadau TWE wedi'u talu i CThEM.

## Mae'r Cyngor wedi methu â chynnal system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol

39 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (y Rheoliadau) yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor cymuned sicrhau bod ganddo system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol ar waith. Mae gwaith archwilio mewnol yn rhan bwysig o'r fframwaith rheolaeth fewnol cyffredinol. Dylai'r archwilydd mewnol fod yn annibynnol, h.y. ni ddylai chwarae unrhyw ran ym mhroses gwneud penderfyniadau'r Cyngor nac unrhyw rôl yn y gwaith o gynnal y system gyfrifyddu na pharatoi'r cyfrifon blynyddol.

40 Cadarnhaodd fy archwiliad nad oedd y Cyngor wedi gwneud unrhyw drefniadau ar gyfer archwilio mewnol ar gyfer 2015-16 na 2016-17. Pe bai archwilydd wedi cael ei gyflogi gan y Cyngor, mae'n debygol y byddai llawer o'r diffygion a nodir yn yr adroddiad hwn wedi cael eu nodi yn gynharach.

## Mae'r Cyngor wedi methu â chadw cofnodion o'i gyfarfodydd ar y ffurf a ragnodir gan y gyfraith

41 O dan y gyfraith rhaid i'r Cyngor gadw cofnodion o'i drafodion a rhaid iddynt gael eu llofnodi gan y person sy'n cadeirio'n cyfarfod lle y cymeradwyir y cofnodion fel cofnod cywir o'r trafodion. Rhaid cofnodi'r cofnodion mewn llyfr a gedwir yn benodol at y diben hwn. Os cedwir y cofnodion mewn llyfr â dalennau rhydd, rhaid i'r tudalennau gael eu rhifo'n olynol a'u llofnodi gan y person sy'n llofnodi'r cofnodion ar adeg eu llofnodi.

42 Nododd fy archwiliad, yn ystod 2015-16 a 2016-17, na sicrhaodd y Cyngor fod y cofnodion wedi'u llofnodi fel cofnod cywir o'r trafodion.

## Mae'r Cyngor wedi methu â chydymffurfio â'i ddyletswyddau cyfreithiol i fabwysiadu Cod Ymddygiad i'r aelodau a chynnal cofrestr o fuddiannau'r aelodau

43 Mae ymddygiad aelodau corff yn rhan hanfodol o fframwaith llywodraethu'r corff hwnnw. O dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 crëwyd fframwaith moesegol newydd ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru. Creodd bŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi cod ymddygiad enghreifftiol i'w gymhwyso at aelodau ac aelodau cyfetholedig pob awdurdod perthnasol yng Nghymru.

44 Mae'n ofynnol i gynghorau lleol fabwysiadu'r Cod enghreifftiol yn ei gyfanrwydd, ond gall ychwanegu at y Cod, cyhyd â bod unrhyw ychwanegiadau yn gyson â'r Cod Enghreifftiol. Yna bydd y Cod a fabwysiedir yn lleol yn rhan annatod o fframwaith llywodraethu'r cyngor unigol.

45 Nododd fy archwiliad nad yw'r Cyngor wedi mabwysiadu Cod Ymddygiad i'r aelodau.

46 Wrth gyflawni eu dyletswyddau, mae angen i aelodau benderfynu a oes ganddynt fuddiant personol, ac os felly, a oes angen iddynt ei ddatgelu. Os oes ganddynt fuddiant y dylid ei ddatgelu, dylid datgan y ffaith bod buddiant a natur y buddiant hwnnw mewn cyfarfodydd, wrth wneud sylwadau ysgrifenedig, gan gynnwys negeseuon e-bost, ac wrth wneud sylwadau llafar. Mae angen gwneud y datgeliad hwn hyd yn oed os yw'r buddiant wedi'i gofnodi ar gofrestr buddiannau'r Cyngor.

47 Yn ei ymateb i'm canfyddiadau cychwynnol, dywedodd y Cyngor fod buddiannau aelodau yn cael eu cofnodi yng nghofnodion ei gyfarfodydd, ond ni gedwir cofrestr ar wahân.

48 O dan adran 81 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 mae'n ofynnol i gynghorau gynnal cofrestr o fuddiannau a ddatgelwyd a chyhoeddi'r gofrestr honno yn electronig.

49 Nododd fy archwiliad nad yw'r Cyngor yn cydymffurfio â gofynion Deddf Llywodraeth Leol 2000 ac nad yw'n cynnal cofrestr o fuddiannau. Er y gall yr aelodau fod yn ymwybodol o'r angen i ddatgan buddiannau mewn cyfarfodydd, mae'r Cyngor wedi methu â chydnabod bod yn rhaid iddo gynnal a chyhoeddi cofrestr hefyd.

## Nid yw'r Cyngor wedi datblygu gwefan er mwyn ei alluogi i gyhoeddi hysbysiadau a gwybodaeth arall yn electronig

50 O dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (Deddf 2013) mae'n ofynnol i bob cyngor lleol gyhoeddi ei fanylion cyswllt a manylion ei aelodau a chofnodion o'i drafodion ar y rhyngrwyd. O dan Ddeddf 2013 mae hefyd yn ofynnol i bob cyngor gyhoeddi ei gofrestr o fuddiannau aelodau, hysbysiadau cyhoeddus a chyfrifon archwiliedig yn electronig.

51 Mae'r newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf 2013 wedi'u cynllunio i wneud cynghorau lleol yn fwy atebol i'w hetholwyr.

52 Nododd fy archwiliad nad oes gan y Cyngor wefan a fyddai'n ei alluogi i gyhoeddi hysbysiadau a dogfennau eraill yn electronig.

# Argymhellion

### Arddangosyn 3: nodir fy argymhellion i'r Cyngor isod

| Argymhellion | |
|---|---|
| A1 | Rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn cynnal llyfr arian cyflawn a baratowyd gan ddefnyddio dogfennau gwreiddiol. |
| A2 | Dylai'r Cyngor sicrhau y caiff y llyfr arian ei gysoni'n briodol â'r cyfrif banc yn rheolaidd. |
| A3 | Rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn cadw'r holl ddogfennau gwreiddiol i ategu taliadau a wnaed. |

| Argymhellion | |
|---|---|
| A4 | Rhaid i'r Cyngor sicrhau y caiff y Datganiad Cyfrifon ei baratoi a'i gymeradwyo cyn 30 Mehefin bob blwyddyn. |
| A5 | Dylai'r Cyngor sicrhau bod Cynghorwyr unigol yn deall eu cyfrifoldebau am y cyfrifon blynyddol. |
| A6 | Dylai'r Cyngor sicrhau y caiff y cyfrifon eu cyflwyno i'w harchwilio'n brydlon ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo. |
| A7 | Rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn cydymffurfio â gofynion y Ddeddf a'r Rheoliadau yn brydlon mewn perthynas â chyfrifon 2015-16 a 2016-17. |
| A8 | Dylai'r Cyngor gadw digon o dystiolaeth i ddangos ei fod wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol. |
| A9 | Rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn paratoi cyllideb yn unol â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 cyn pennu ei braesept. |
| A10 | Dylai'r Cyngor fonitro ei wariant yn erbyn y gyllideb hon drwy gydol y flwyddyn e.e. drwy gymharu gwariant yn erbyn y gyllideb bob chwarter. |
| A11 | Rhaid i'r Cyngor sicrhau y caiff ei benderfyniad i gyflwyno praesept ei gofnodi yn ei gofnodion. |
| A12 | Rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn rhoi contract ysgrifenedig sy'n nodi telerau ac amodau cyflogaeth y Clerc. |
| A13 | Dylai'r Cyngor adolygu'r trefniadau ar gyfer talu cyflog y Clerc er mwyn cadarnhau bod y cyflog a didyniadau ar gyfer treth (gan gynnwys treth ar y lwfans treuliau) wedi'u cyfrifo'n gywir. |
| A14 | Dylai'r Cyngor sicrhau bod y sefyllfa lle nad yw treth yn cael ei thalu i CThEM yn cael ei hunioni a bod unrhyw daliadau hwyr yn cael eu diweddaru. |
| A15 | Rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn cadw cofnodion cyflogres priodol ac yn talu'r didyniadau i CThEM yn brydlon. |
| A16 | Rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn cyflogi archwilydd mewnol cyn gynted â phosibl ac yn cytuno ar gylch gorchwyl priodol i'r archwilydd. |
| A17 | Rhaid i'r Cyngor sicrhau y caiff ei gofnodion eu llofnodi gan y person sy'n cadeirio'r cyfarfod lle y cymeradwyir y cofnodion. |
| A18 | Rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn mabwysiadu Cod Ymddygiad i'r aelodau cyn gynted â phosibl. |
| A19 | Rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn paratoi ac yn cynnal cofrestr o fuddiannau aelodau. |
| A20 | Rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn sefydlu gwefan cyn gynted â phosibl er mwyn ei alluogi i gydymffurfio â gofynion Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013. |

| Argymhellion | |
|---|---|
| A21 | Rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn nodi pa ddogfennau y mae angen eu cyhoeddi'n electronig a gwneud trefniadau priodol i gyhoeddi'r rhain ar ei wefan yn brydlon. |

# Y camau nesaf

53 Mae adran 25 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn gofyn i'r Cyngor ystyried yr adroddiad mewn cyfarfod llawn o'r Cyngor o fewn mis i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad. Yn y cyfarfod, bydd angen i'r Cyngor benderfynu:

- p'un a yw'r adroddiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gymryd unrhyw gamau;
- p'un a gaiff yr argymhellion yn yr adroddiad eu derbyn; a
- pha gamau gweithredu (os o gwbl) y bydd yn eu cymryd i ymateb i'r adroddiad a'r argymhellion.

54 Yna, bydd angen i'r Cyngor baratoi ymateb ysgrifenedig a chytuno ar eiriad yr ymateb hwnnw â mi cyn cyhoeddi ei ymateb.

Anthony Barrett

Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol

Rhagfyr 2018

Wales Audit Office
24 Heol y Gadeirlan
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru